

DATGANIAD I'R WASG GŴYL FEL 'NA MAI CRYMYCH 2022

Ddwy flynedd yn ôl roedd trefniadau cynnal gŵyl gerddorol newydd sbon yng Nghrymymch yn ei anterth ond fel popeth arall daeth Covid-19 i darfu ar ein cynlluniau. Yn dilyn y siom o fethu cynnal yr Ŵyl yn 2021 hefyd rydym nawr yn hyderus y gallwn gynnal yr Ŵyl eleni. Ar ddydd Sadwrn 7fed Mai y bwriad yw gweld safle Frenni Transport ym Mharc Gwynfryn, trwy garedigrwydd Matthew Parry, yn fwrlwm o gerddoriaeth byw Cymraeg wrth i'r ardal groesawu pobl o bob oed o bedwar ban i'r ŵyl gerddorol Cymraeg gyntaf yng ngodre'r Frenni Fawr. Plannwyd yr hedyn gan aelodau o Gôr Clwb Rygbi Crymymch yn ystod eu hymweliad â Gŵyl Gerddorol Cei Newydd rai blynyddoedd yn ôl gan fwriadu cynnal gŵyl fechan yng Ngardd Gwrw'r Clwb Rygbi ond wrth i drafodaethau ddatblygu esblygodd y syniad ymhellach a phenderfynwyd mynd amdani! Ffurfiwyd pwyllgor gweithredol gan rai o aelodau'r côr ynghyd â Menter Iaith Sir Benfro, unigolion profiadol yn y maes hwn ac ieuencid lleol. Mae Gŵyl Fel 'Na Mai bellach yn Gwmni Cyfyngedig ac edrychwn ymlaen at y cyffro wrth groesawu artistiaid a fydd, gobeithio, at ddant pawb. Bydd dau lwyfan sef Llwyfan Y Frenni Fawr a Llwyfan Foel Drigarn a bydd y lein-yp yn cynnwys Mei Gwynedd a'r Band, Los Blancos, Bwncath, Einir Dafydd, Dafydd Pantrod a'r Band ac ambell syrpreis arall! Edrychwn ymlaen hefyd at groesawu Dafydd Iwan sydd eleni yn dathlu trigain mlynedd o berfformio. Un o amcanion gwreiddiol yr Ŵyl oedd rhoi cyfle i dalentau lleol berfformio a bydd y rhain yn cynnwys Ysgol Bro Preseli - a fydd newydd ei ffurfio, Côr Dysgu Cymraeg Sir Benfro, Côr Clwb Rygbi Crymymch, Erin Byrne a Manon Elster-Jones. Ychydig feddyliodd yr un ohonom pan ddechreuwyd ar y trefniadau gwreiddiol y byddem wedi colli un o'n bandiau mwyaf poblogaidd yn dilyn marwolaeth drist y brodyr Richard ac Wyn Jones. Byddai Ail Symudiad wedi bod yn un o uchafbwyntiau'r Ŵyl yn 2020 a gobeithiwn fedru talu teyrnged haeddiannol iddynt yn ystod y dydd. Bydd yr gweithgareddau yn cychwyn yn y prynhawn ac yn parhau tan yr hwyr, gyda'r nod o fod yn ŵyl holl gynhwysfawr ac yn ŵyl i'r teulu cyfan sy'n cynnwys gweithgareddau i blant o bob oed a digon o gyfleusterau parcio. Un o fois y pentre' sef Gareth Delve fydd MC yr wyl a bydd darpariaethau ar gyfer pawb yn cynnwys bar a bydd bwydydd amrywiol gan fusnesau lleol ar werth. Am fwy o fanylion ac i archebu tocynnau ewch i felnamai.co.uk. Cofiwch am ein cynnig arbennig - y cyntaf i'r felin i gael gostyngiad cyn 1af Ebrill Peidiwch fod yn ffŵl a cholli mas!!